

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda



'CROESO NÔL'
Canllawiau a Threfniadau
14eg – 25ain Medi 2020

Rhieni a Disgyblion

Byddwn yn cyf-ddyddio ac yn rhannu'r wybodaeth hon gyda chi eto wrth i ni baratoi at weddill yr hanner tymor (Medi 28ain ymlaen).

MAE'R HOLL WYBODAETH SYDD WEDI EI HADOLYGU A'I CHYF-DDYDDIO WEDI EI NODI YN FELYN AR EICH CYFER



Mae trefniadau ein hysgol yn seiliedig ar ac yn unol â chanllawiau RCT a Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-fersiwn-3-html>

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/EmergenciesSafetyandCrime/InformationforResidentsCoronavirus/NEWCoronavirusCOVID19latestinformation/Schoolreturn/FAQsSchoolSummerTermfromJune29.aspx>

Lles, Iechyd a Diogelwch

Ein blaenoriaeth bwysicaf yn Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yw sicrhau bod disgyblion a staff yn ddiogel ac yn iach. Bydd pob diwrnod yn dechrau gyda sesiwn lles a threfn y dydd. Bydd staff yn trafod pwysigrwydd materion Iechyd a Diogelwch, hylendid a disgwyliadau o ran ymddygiad.

Er mwyn cynllunio amgylchedd ddiogel yn sgil Covid 19, mae'r mesurau a ddilynir gennym sydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen hon yn unol â'r disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer ysgolion. Gwarchod ein disgyblion a'n staff yw'r hyn sy'n gyrru ein holl benderfyniadau.

Caiff y canllawiau yma eu cyfddyddio yn unol â chanllawiau a diweddariadau Llywodraeth Cymru.

Trefniadau Dechrau a Diwedd y Dydd

Bydd amseroedd cychwyn a gorffen yr ysgol yn dychwelyd i'r amseroedd arferol o ddydd Llun 14^{eg} Medi ymlaen.

Trefniadau'r Bore: Disgyblion i gyd i gyrraedd erbyn 8.40am yn barod ar gyfer cofrestru boreol.

Trefniadau'r Prynawn:

Bysiau yn gadael yr ysgol	3.25pm
Ceir yn cyrraedd i gasglu disgyblion <i>*nid cyn hyn ogydd. Mae angen i ni sicrhau bod pob disgybl sy'n gadael ar fws yn gallu gwneud hynny yn ddiogel cyn gadael ceir i mewn i'r maes parcio*</i>	3.30pm*
Cerddwyr yn gadael yr ysgol erbyn	3.15pm

- Os yw'n bosibl i blentyn gerdded i'r ysgol neu reidio beic, mae hyn yn opsiwn ardderchog. Mae'n holl bwysig bod eich plentyn yn cadw pellter 2 fetr o unrhywun sydd ddim yn rhan o'i swigyn estynedig.
- Os ydych yn dod i'r ysgol mewn car i gasglu'ch plentyn, er mwyn osgoi prysurdeb yn y maes parcio, gofynnwn i chi ystyried parcio i ffwrdd o'r safle ac yna cerdded.

Gofynnwn yn garedig i rieni a theuluoedd lynu at y trefniadau uchod er mwyn sicrhau trefniadau diogel yn sgil Covid 19.

Bysiau Ysgol:

- Am yr hanner tymor cyntaf, os ydych mewn sefyllfa i wneud hynny, gofynnwn yn garedig i chi wneud trefniadau amgen ar gyfer eich plentyn, ac i'ch plentyn deithio ar y bws **os nad oes ganddo unrhyw fodd arall** o gyrraedd yr ysgol.
- Mae'n orfodol i ddisgyblion sy'n teithio ar fws ysgol i wisgo gorchudd wyneb tair haen, yn unol â chanllawiau RCT. Mewn achos o ddisgybl yn gwrthod cydymffurfio gyda hyn, gall arwain at ddisgybl yn cael ei wahardd o'r bws ysgol.

Presenoldeb

- Mae'n ofynnol i bob disgybl fynychu'r ysgol oni bai bod ganddynt reswm meddygol dros beidio â gwneud hynny. Ar hyn o bryd, does dim cosb i rieni (FPN) am beidio â danfon eu plant i'r ysgol. Er hyn, mae disgwyl i bawb ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Bydd angen i ni adrodd yn swyddogol i'r Sir ar bawb nad sy'n mynychu.
- Dylai rhieni a gwarcheidwaid ddilyn y gyfundrefn arferol os nad ydy plentyn yn methu â dod i'r ysgol, drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol ar (01443) 680800 erbyn 10.00am. Bydd rhaid nodi rheswm llawn am ddiffyg presenoldeb eich plentyn.
- Wrth i chi ein ffonio, byddwn yn gofyn i chi os yw'r alwad yn ymwneud â Covid-19. Mae hyn er mwyn i ni sicrhau ein bod yn cofnodi y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer yr absenoldeb. Caiff absenoldebau sy'n gysylltiedig â Covid-19 eu hawdurdodi a'u côdio yn briodol.
- Byddwn yn parhau i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Presenoldeb a Lles er mwyn sicrhau presenoldeb ein disgyblion a chefnogi disgyblion nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol.

Offer: bag / cas pensiliau

- Caiff plant ddod â bag / cas pensiliau / offer angenrheidiol i'r ysgol, fodd bynnag, dylai disgyblion ddod ag offer hanfodol yn unig i'r ysgol bob dydd (peniau / pensiliau / dileydd / naddwr / pren mesur / onglydd / glud / uwch oleuydd.) Dylai'r rhain fod ar gyfer eu defnydd personol yn unig a rhaid peidio â rhannu offer na deunydd ysgrifennu. Dylid lleihau'r angen i drosglwyddo eitemau yn ôl ac ymlaen o'r cartref i'r ysgol lle bo hynny'n bosibl.
-

Gwisg Ysgol

- Rydym yn parhau gyda'n polisi gwisg arferol. Yr unig eithriad i'r disgwyliad yma yw'r canlynol: Gofynnwn i ddisgyblion BEIDIO a gwisgo tei i'r ysgol am resymau hylendid. Byddwn yn parhau i adolygu'r cyfarwyddyd yma yn ystod y pythefnos nesaf.
- Mae canllawiau RCT yn argymhell yn gryf eich bod yn golchi'r dillad fydd yn cael eu gwisgo i'r ysgol yn ddyddiol.

Defnydd o Orchudd Wyneb

- Ar hyn o bryd mae'r Prif Swyddog Meddygol yn awgrymu, ond nid yn gorfodi, defnydd o orchuddion wyneb, mewn modd sydd wedi ei asesu o ran risgiau posib, mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd lle nall all mesurau pellhau cymdeithasol gael eu cynnal.
- Yn dilyn gwybodaeth bellach gan Sefydliad Iechyd y Byd, mae'r Awdurdod Lleol wedi argymhell yn gryf y dylai staff a disgyblion oed uwchradd, o Fedi'r 10fed ymlaen, wisgo gorchudd wyneb mewn ardaloedd cymunol ac ymgynull – coridorau, lifftiau, tai bach – ac ardaloedd eraill lle mae cynnal peller cymdeithasol yn anodd.
- Er ein bod am gymryd pob mesur rhesymol i osgoi cymysgu grwpiau cyswllt, fe fydd yna beth cymysgu annorffod rhwng grwpiau cyswllt wrth gerdded ar goridorau ysgol ac mewn rhai mannau ymgynull. O ganlyniad, **gofynnwn yn garedig i staff a disgyblion wisgo gorchudd wyneb wrth gerdded ar goridorau ysgol** er mwy lleihau risg trosglwyddo.
- Fe fydd cyflenwad o orchuddion wyneb ar gael os yw disgybl yn anghofio ei un personol.
- Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod unrhyw orchudd wyneb personol yn addas ar gyfer amgylchedd ysgol.
- Dylai'r disgyblion sicrhau bod ganddynt fag plastig i gadw'r gorchudd wyneb pan nad ydynt yn ei wisgo.
- Tra'n gwisgo gorchudd, ni ddylai disgyblion:
 - gyffwrdd y gorchudd gyda'u dwylo. Os ydynt yn gwneud hyn mae angen golchi dwylo / defnyddio diheintydd yn syth
 - rhoi'r gorchudd ar eu talcen neu o amgylch eu gwddf
- Nid yw defnyddio gorchudd wyneb yn golygu nad oes angen sicrhau hylendid personol effeithiol, gan gynnwys golchi dwylo yn rheolaidd.
- O fewn ein cymuned ysgol mae yna staff a disgyblion sydd â chyflyrau meddygol sy'n golygu eu bod wedi bod yn hunan-ynysu hyd at Awst 16eg. O ganlyniad, efallai y byddwn yn gofyn i ddisgyblion wisgo'u gorchudd wyneb mewn ambell i wers. Bydd rhai staff unigol hefyd yn gwneud defnydd o sgriniau persbecs a gorchuddion wyneb plastig (visors)

Prydau Ysgol

- Ar hyn o bryd, nid yw'n ffreutur ar agor a ni fyddwn yn darparu bwyd poeth i ddisgyblion na staff. Caiff y sefyllfa hon ei hadolygu'n rheolaidd.
- Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cadw grwpiau cyswllt ar wahan, gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod pecyn bwyd a diod gan eich plentyn. Os yw disgybl yn anghofio ei becyn bwyd, bydd modd iddo archebu pecyn bwyd oer o flaen llaw o fwydlen gyfyng fel rhan o ddarpariaeth casglu cinio cyflym. Bydd grwpiau cyswllt blwyddyn yn cael eu cadw ar wahân mewn lleoliadau gwahanol yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Bydd blociau tŷ bach penodol ar gyfer grwpiau cyswllt.
- Bydd pecyn bwyd ar gael yn ddyddiol ar gyfer disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.
- **Ni fydd disgyblion, gan gynnwys disgyblion Bl.12/13, yn cael gadael tir yr ysgol er mwyn prynu bwyd. Mae'n hynod bwysig bod eich plentyn yn deall na all adael tir yr ysgol ar unrhyw adeg oni bai bod yna drefniant ffurfiol o flaen llaw.**
- O ganlyniad i reoliadau iechyd fydd dim modd talu gydag arian parod yn yr ysgol o gwbl, felly gofynnwn yn garedig i chi ddefnyddio system taliadau ar-lein yr awdurdod. Sicrhewch eich bod wedi cofrestru i ddefnyddio'r system drwy ymweld â'r wefan drwy'r ddolen isod:
<https://www.civicaepay.co.uk/RhonddaEstore/estore/default/Account/Login?ReturnUrl=%2FRhonddaEstore%2Festore%2Fdefault%2FHome%2FIndex>

- Os ydych wedi anghofio manylion cyfrif eich plentyn i dalu ar lein, cysylltwch gyda'r Arweinydd Blwyddyn perthnasol.

Hylendid

Wrth weithio ar leihau risg trosglwyddo Covid 19 mae hyrwyddo hylendid personol yn hollbwysig, a gofynnwn yn garedig i chi danlinellu hyn gyda'ch plentyn.

- Mae golchi dwylo parhaus yn angenrheidiol ac fe fydd gofyn i'ch plentyn wneud hyn yn gyson yn ystod y diwrnod ysgol. Rydym wedi sicrhau bod gennym gyflenwad digonol o sebon, diheintydd, a thywelion papur.
- Mae'n tîm glanhau yn llwyr ymwybodol o reoliadau hylendid a glanhau ac fe fydd ein hadeiladau yn cael eu glanhau'n drylwyr bob bore a nos. Bydd ardaloedd sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn cael eu glanhau'n gyson yn ystod y dydd.
- Bydd glanhau dwys hefyd yn digwydd yn yr adeiladau yn ystod ac ar ddiwedd wythnos ysgol.
- Bydd gan bob ystafell gyflenwad o ddiheintydd dwylo, llieiniau gwrthfacteria a chwystrellwyr gwrthfacteria. Bydd athrawon yn ymwybodol o'r arweiniad ar gyfer sicrhau safonau hylendid uchel gyda disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol.
- Bydd gofyn i ddisgyblion a staff beswch i mewn i'w penelin neu hances bapur, a byddwn yn annog disgyblion i beidio â chyffwrdd â'u hwynebau.
- Bydd desgiau disgyblion yn cael eu glanhau yn dilyn eu defnyddio ganddynt a chyn bod grŵp gwahanol o ddisgyblion yn eu defnyddio.
- Bydd hancesi papur a gorchuddion wyneb un tro yn cael eu rhoi mewn biniau penodol a bydd y biniau yn cael eu gwaghaus yn gyson ac mewn ffordd ddiogel yn ystod y dydd.
- Bydd disgyblion yn diheintio eu dwylo yn dilyn ail-wisgo mwgwd ddiwedd pob gwers.

Pellhau Cymdeithasol

Byddwn yn gweithredu, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, reolau llym pellhau cymdeithasol/corfforol. Bydd angen i bob disgybl a phob aelod o staff lynu at y rheolau hyn ar bob achlysur er mwyn lleihau pob risg. Bydd yr ysgol yn gweithredu Asesiad Risg Covid-19.

O ystyried yr holl ffactorau (gan gynnwys nifer disgyblion, safle ac adeiladau yr ysgol, sicrhau darpariaeth gwricwlwm gytbwys), gan nid yw'n bosib sicrhau bod pawb yn aros 2 fetr o'i gilydd bob tro, byddwn yn canolbwyntio ar gadw y 'grwpiau cyswllt' ar wahân gymaint ag sy'n bosibl, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

- Bydd y rheol 2 fetr yn cael ei hatgyfnerthu yn gyson lle'n bosibl, ac fe fydd hyn yn golygu ailfodelu gweithgareddau er mwyn osgoi cysylltiad corfforol. O ganlyniad fe fydd ystafelloedd dosbarth yn edrych yn wahanol i'r arfer. Caiff arwyddion unffordd a phosteri yn atgoffa pawb o bwysigrwydd pellhau cymdeithasol eu harddangos ar hyd yr ysgol.
- Bydd systemau tramwyo unffordd yn cael eu gweithredu drwy'r ysgol.
- Yn ystod y dydd bydd disgyblion yn gorfod aros yn eu seddau ac ni fydd caniatâd iddynt gerdded o gwmpas yr ystafell ddosbarth.
- Bydd athrawon yn arwain y dysgu o du blaen y dosbarth er mwyn cadw at y rheol 2 fetr.
- Bydd angen i ddisgyblion ddod â'u hoffer arferol gyda nhw fel eu bod yn barod i ddysgu ac ni chaniateir i ddisgyblion rannu offer.
- Mewn swyddfeydd ble cynhelir cyfarfodydd 1 i 1, gwneir defnydd o sgriniau diogelu persbecs.

Disgwyliadau Ymddygiad / Disgyblaeth

- Bydd cyfrifoldeb personol pob person sydd ar ein safle i ddilyn rheoliadau Llywodraeth Cymru yn cael ei bwysleisio.
- Mewn achos o dorri rheoliadau neu achos o ymddygiad wael sy'n peryglu iechyd staff a disgyblion eraill (enghreifftiau difrifol o dorri'r rheol 2 fetr / peswch / poeri / gadael safle heb ganiatâd / diogelwch ar y bysiau ysgol) yna bydd disgybl yn cael ei wahardd o'r ysgol.
- Bydd pesychu neu boeri bwriadol ar / at rywun yn cael ei ystyried yn 'ymosodiad treisgar' a gall arwain at brosesau gwahardd parhaol. Gweithredir yn llym iawn ar hyn, gyda chefnogaeth y Bwrdd Llywodraethol.

Grwpiau Cyswllt

- Yn CA3 (Bl.7+8) mae 'grŵp cyswllt' yn dynodi grŵp *blwyddyn*.
- Yn CA4 (Bl.9-11) mae 'grŵp cyswllt' yn dynodi grŵp *blwyddyn*.
- Yn CA5 (Bl.12/13) mae 'grŵp cyswllt' yn dynodi *Cyfnod Allweddol* o ddisgyblion (*mae hyn oherwydd natur cyrsiau UG/SU gyda nifer cynyddol o ddisgyblion Bl.13 yn ymuno â chysiau UG gyda disgyblion Bl.12*).

Trefn Dydd-i-ddydd

- **O'r 14^{eg} Medi ymlaen**, bwriadwn gynnal amserlen lawn i bob blwyddyn ysgol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i bob disgybl. Bydd disgyblion yn aros yn eu grwpiau cyswllt ar gyfer y diwrnod cyfan, gan gynnwys egwyl a chinio
- Bydd athrawon yn parhau i osod gwaith ar y Google Classroom. Bydd croeso i unrhyw ddisgybl sydd methu mynychu'r ysgol ac sydd yn parhau i weithio o adref gysylltu gyda'u hathrawon pwnc am gyngor a chymorth gyda'r gwaith.
- Wrth symud o wers i wers, disgwylir i ddisgyblion ddilyn y system un ffordd a glynu wrth reolau gwahanu cymdeithasol. Gofynnwn i ddisgyblion i wisgo gorchudd wyneb wrth deithio o ddsbarth i ddsbarth.
- Bydd cynllun pob ystafell ddysgu yn golygu bod yr ystafelloedd dysgu yn adlewyrchu'r canllawiau newydd. Bydd disgyblion yn wynebu'r blaen a'r athro ar flaen y dosbarth.
- Bydd disgyblion yn eistedd yn unol â chynllun eistedd llym. Bydd pob disgybl yn defnyddio ychydig o hylif diheintio dwylo ar y ffordd i mewn i'r ystafell ddsbarth.
- Bydd sesiynau'n cael eu harwain o flaen yr ystafell ddsbarth, gyda'r aelod o staff yn sicrhau ei fod yn aros 2 fetr o'r disgyblion ar bob achlysur. Ni fydd cyfle i edrych ar waith disgyblion gan fod hyn yn gofyn i athrawon fynd yn agosach na 2 fetr i'r disgyblion.
- Ni fydd disgyblion yn cael symud o'u cadeiriau.

- Bydd cyfnodau byr ar gyfer egwyl, dan oruchwyliaeth, i bob 'grŵp cyswllt' ar yr amserlen.
- Byddwn yn rhannu ein sesiynau cinio er mwyn sicrhau y cedwir disgyblion o fewn eu grwpiau cyswllt.
- Ni fydd Bl.12 a Bl.13 yn cael gadael y safle.
- Ar hyn o bryd, ni fydd yr ysgol yn darparu bwyd twym i ddisgyblion na staff. Byddwn yn adolygu hyn yn gyson.
- Er mwyn sicrhau awyr iach a llif aer digonol i'r ystafelloedd, bydd ffenestri a drysau ar agor ym mhob ystafell ar adegau yn ystod y dydd, ble mae'r tywydd yn caniatâu hyn.
- Ni fydd yn ofynnol i ddisgyblion wisgo tei yn rhan o'u gwisg ysgol
- Gofynnir i chi ddarparu pecyn cinio i'r disgybl. Byddwn yn darparu pecyn bwyd ar gyfer y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn ddyddiol.
- Bydd gan bob ysgol hylif diheintio dwylo mewn sawl man ar hyd a lled yr adeilad a bydd ar gael i'r holl ddisgyblion ac aelodau o staff ei ddefnyddio.

Profiadau Dysgu Cyfunol

- Bydd staff a disgyblion yn parhau i wneud defnydd o Google Classroom er mwyn sicrhau profiad dysgu cyfunol i ddisgyblion. Mae'n hollbwysig bod eich plentyn yn gwirio ei gyfrif Hwb yn rheolaidd er mwyn gwirio unrhyw negeseuon. Dylai disgyblion hefyd sicrhau eu bod yn cadw eu manylion mewngofnodi i Hwb yn ddiogel am y byddant eu hangen yn ddyddiol. Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion lawr lwytho ap Google Classroom sydd ar gael er mwyn cefnogi eu dysgu cyfunol. Caiff sesiynau hyfforddi ac ail-ymweld eu cynnal i ddisgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus yn defnyddio Google Classroom. Mae gwybodaeth hefyd ar gael i rieni ar ein gwefan.

Gwersi Drama ac Addysg Gorfforol

- Yn ystod y pythefnos nesaf, caiff gwersi Drama ac Addysg Gorfforol eu cynnal mewn dosbarthiadau, yn hytrach nag yn y Neuadd neu'r Neuadd Chwaraeon. Bydd gwersi yn ystod y pythefnos yma yn canolbwyntio ar elfennau theori y pynciau. Rydym yn parhau i weithio gyda'r adrannau er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynnwys elfennau ymarferol y pynciau hyn yn ddiogel i'r gwersi cyn gynted ag y bo modd.

Gweithgareddau Allgyrsiol

- Rydym yn mawr obeithio y byddwn yn gallu ail-gyflwyno peth o'n darpariaeth allgyrsiol yn ystod yr hanner tymor i ddod. Rydym yn cydweithio gydag asiantaethau megis YEPs i ddarparu rhai sesiynau ar-lein lle'n addas.

Cymorth Cyntaf / Damwain / Argyfwng

Bydd cynorthwydd cymorth cyntaf cymwys yn bresennol yn yr ysgol a byddant yn ystyried defnydd PPE sy'n ofynnol yn unol ag asesiad risg yr ysgol.

ACHOSION COVID-19 IECHYD A DIOGELWCH

DISGYBLION SYMPTOMATIG:

Ni ddylai'ch plentyn fynychu'r ysgol ar unrhyw amod os ydynt yn arddangos y symptomau canlynol:

- Yn teimlo'n anhwylyd, neu'n arddangos unrhyw un o'r tri symptom Covid-19 cydnabyddedig – peswch newydd, tymheredd uchel, neu dim synnwyr aroglu / blasu
- Yn byw mewn cartref gyda rhywun sy'n arddangos symptomau Covid-19
- Wedi profi'n bositif ar gyfer Covid-19 yn ystod y pythefnos diwethaf

ACHOSION COVID-19 A AMHEUIR

Mae gennym brosesau clir pe bai disgybl yn dechrau arddangos symptomau ar safle'r ysgol. Os bydd unrhyw un yn mynd yn sâl gyda pheswch newydd, parhaus neu dymheredd uchel yn yr ysgol, fe ofynnwn iddynt fynd adref a'u cynghori i ddilyn y canllaw aros yn y cartref:

https://llyw.cymru/hunanynysu-canllawiau-aros-gartref-i-aelwydydd-coronafeirws-posibl?_ga=2.251845773.501777178.1598279869-1509786684.1584370621

- Bydd disgybl yn cael ei gadw mewn ystafell ar wahân dan oruchwyliaeth 2 metr ar wahân nes y gellir ei gasglu a'i hebrwng adref
- Bydd pob arwynebedd lle bu'r disgybl yn gweithio yn cael ei lanhau yn ôl rheoliadau Iechyd a Diogelwch.

Os yw disgybl yn arddangos symptomau, rhaid iddo aros adref am **10 diwrnod** a dylid trefnu iddo gael ei brofi. **Os yw'r disgybl yn cael ei brofi'n bositif, rhaid hysbysu'r ysgol ar unwaith.**

Os oes disgybl yn byw gyda rhywun sy'n arddangos symptomau ond sy'n aros yn iach – rhaid i'r disgybl aros adref am **14 diwrnod** o'r diwrnod y dechreuodd y person yn y cartref deimlo'n sâl.

AROS GARTREF O'R YSGOL

- **Hunanyngyswch** a pheidiwch â dod i'r ysgol os ydych chi neu'ch plentyn:
 - yn profi unrhyw un o symptomau'r Coronafeirws (hunanyngyswch am **10 diwrnod**)
 - yn byw ar aelwyd gyda pherson sydd wedi profi'n positif â Choronafeirws (hunanyngyswch am **14 diwrnod**)
 - wedi'ch cysylltu gan swyddog olrhain cysylltiadau ac wedi cael gwybod bod angen i chi hunanyngysu (hunanyngyswch am **14 diwrnod, hyd yn oed mewn achos o ganlyniad prawf negyddol**)
- Trefnu prawf ar gyfer rhywun sy'n arddangos y symptomau isod drwy fynd i wefan www.gov.uk/get-coronavirus-test neu ffonio 119 am ddim:
 - Peswch newydd, parhaus
 - Tymheredd uchel (dros 37.8°C)
 - Llai o flas neu arogl (anosmia)
- Os oes gan eich plentyn symptomau ac rydych chi'n aros am ganlyniadau ei brawf, rhaid i'r plentyn **aros gartref** a hunanyngysu.
- Os yw eich plentyn wedi'i gysylltu ag achos, rhaid iddo/iddi hunanyngysu am 14 diwrnod, hyd yn oed os ydyn nhw'n profi'n negyddol.

Ym mhob achos arall, ble mae'ch plentyn yn derbyn canlyniad negyddol i brawf, gall ddychwelyd i'r ysgol unwaith y mae'n teimlo'n well a gall aelodau eraill y cartref ddod â'y cyfnod ynysu i ben.

Cysylltwch gyda'r ysgol cyn gynted ag sy'n bosib gydag unrhyw fater Covid-19. Gallwch gysylltu â ni drwy ffonio 01443 680800 o 8.00am – 4.40pm, neu drwy e-bostio:

covid@ygcwmrhondda.cymru unrhyw bryd.

Gofynnwn yn garedig i chi gadw'n llym at yr arweiniad uchod er mwyn i ni sicrhau diogelwch pob disgybl ac aelod o staff.

Diolch yn fawr i chi gyd am eich cefnogaeth.

